TraCC
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Mid Wales Transportation

Beth yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Roedd Deddf Trafnidiaeth Cymru 2006 a Deddf Rheilffyrdd 2005 yn rhoi dyletswyddau a phwerau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynllunio a gwella system drafnidiaeth Cymru. Ymhlith y newidiadau roedd y pwerau i hybu cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a gofyniad i bob un o'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol (Canolbarth Cymru, Gogledd Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru) baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Diben y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw rhoi manylion am y polisïau a'r cynlluniau trafnidiaeth y mae TraCC yn dymuno eu datblygu yng Nghanolbarth Cymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r Cynlluniau i ddyrannu cyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth ar draws Cymru.

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol:

- yn ddogfen statudol
- yn gorfod cwmpasu pob gwahanol ddull o deithio
- yn gosod canllawiau ar gyfer polisi trafnidiaeth am y 30 mlynedd nesaf ac yn sail i gynigion am y 5 mlynedd nesaf

Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC yn:

- Gosod cyd-destun y polisi trafnidiaeth
- Dadansoddi problemau trafnidiaeth ac adnabod cyfleoedd
- Sefydlu rhaglen 5 mlynedd o brosiectau trafnidiaeth
- Sefydlu'r weledigaeth hirdymor o 30 mlynedd
- Gosod fframwaith monitro